

Nodyn cyngor ar weithio mewn partneriaeth – goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

CYFLWYNIAD

Ym mis Ebrill 2016 daeth dau ddarn pwysig newydd o ddeddfwriaeth i rym a fydd yn cael effaith ar y ffordd y mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn gweithio gyda phartneriaid.







Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn pennu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer trawsnewid y ffordd y caiff anghenion gofal a chymorth pobl, ac anghenion cymorth gofaluwr, eu diwallu. Un o egwyddorion allweddol y Ddeddf hon yw'r gofyniad am wasanaethau gofal a chymorth integredig a chynaliadwy. Felly, roedd y Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol, ar ôl-troed y bwrdd iechyd, sy'n dwyn ynghyd fyrddau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill. Rhaid i'r byrddau hyn asesu, cynllunio a darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol ar y cyd. Eu diben yw gwella canlyniadau a llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofaluwr y mae angen cymorth arnynt.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n rhoi diben cyffredin cyfreithiol rwymol – y saith nod llesiant – i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd a chyrrff cyhoeddus penodedig eraill. Mae'n nodi'r ffyrdd y mae'n rhaid i'r chyrrff cyhoeddus hyn weithio, a chydweithio, er mwyn gwella llesiant Cymru.

Mae Deddf 2015 yn gosod dyletswyddau penodol ar y 44 o gyrff cyhoeddus a nodir yn y Ddeddf i weithredu yn unol â'r "Egwyddor Datblygu Cynaliadwy", gan sicrhau bod penderfyniadau'n dangos y ffordd y maent wedi defnyddio dulliau gweithredu hirdymor, ataliol, integredig a chydweithredol sy'n cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth.

Mae Deddf 2015 hefyd yn gosod dyletswydd ychwanegol ar gyrff cyhoeddus penodedig, gan gynnwys byrddau iechyd, i weithredu *ar y cyd* drwy fyrddau gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwella llesiant eu hardal drwy gyfrannu at gyflawni'r amcanion llesiant.

Mae'r nodyn cyngor hwn yn canolbwyntio ar oblygiadau'r ddwy Ddeddf i **WEITHIO MEWN PARTNERIAETH**, gan gynnwys aelodaeth o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus a byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Saith nod llesiant ar gyfer Cymru	Pum ffordd o weithio
	 Hirdymor
	 Cydweithio
	 Integreiddio
	 Cynnwys
	 Atal

Ni fwriedir i'r nodyn cyngor hwn ailadrodd y canllawiau statudol a'r codau ymarfer sy'n gysylltiedig â'r Deddfau. Bwriedir iddo helpu byrddau iechyd yng Nghymru i ddeall natur a graddfa'r newidiadau sydd eu hangen gan y Deddfau. Mae'n pwysleisio ffynonellau cyffredinol o gyngor ar ymateb i'r ddeddfwriaeth ond hefyd yn rhoi cyngor penodol i'r sector iechyd ar ymateb i'r Deddfau.

Ategir y nodyn cyngor gan wybodaeth a gasglwyd o ddau weithdy a gynhaliwyd gyda byrddau iechyd a'r sector gwasanaethau cymdeithasol yn ystod gwanwyn 2016. Trefnwyd y gweithdai¹ hyn mewn cydweithrediad â Chyfarwyddwyr Cynllunio GIG Cymru er mwyn ymgysylltu â'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac ystyried eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, a nodwyd materion allweddol i'r sefydliadau hyn eu rheoli wrth iddynt addasu eu gwaith partneriaeth ar gyfer Deddf 2015. Mae pob adran o'r nodyn cyngor yn adlewyrchu elfennau o'r adborth o'r digwyddiad hwn. Lle y bo modd, rhoddir dolenni at ragor o wybodaeth a chanllawiau.

Tybir bod darllenwyr wedi darllen 'yr hanfodion' ar Ddeddf 2014 a Deddf 2015, sydd ar gael yn:

<http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf>

a

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/160127socialservicesactcy.pdf>

Yn ogystal â hyn, mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, *Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol*, *SPSF 3: Rôl gydweithredol (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)*² a *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014: Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth)*³ yn arbennig o bwysig i bwnc y nodyn cyngor hwn.

¹ Comisiynodd Llywodraeth Cymru Dr Alan Netherwood o Netherwood Sustainable Futures i hwyluso'r gweithdai a chefnogi'r gwaith o lunio'r canllawiau atodol hyn.

² <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?skip=1&lang=cy>

³ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part9cy.pdf>

Mae'r nodyn cyngor hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

1. NEWID YN Y DIRWEDD PARTNERIAETHAU
2. LLYWODRAETHU TREFNIADAU PARTNERIAETH YN EFFEITHIOL
3. ASESU A CHYNLLUNIO AR Y CYD ER MWYN GWELLA LLESIANT LLEOL
4. YMGYSYLLTU Â DINASYDDION AC YN EHANGACH
5. CAPASITI PARTNERIAETHAU A RHANNU ADNODDAU ARIANNOL
6. DATBLYGU SYSTEMAU, DIWYLLIANT AC ARWEINYDDIAETH

1. NEWID YN Y DIRWEDD PARTNERIAETHAU

Y ffordd orau o godi safonau gwasanaethau cyhoeddus yw drwy gydweithio rhwng partneriaid. Mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru eisoes yn gweithio gydag ystod o bartneriaid yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn diwallu anghenion pobl. Nod Deddf 2014 a Deddf 2015 yw darparu fframweithiau cyfreithiol ategol sy'n cynnwys trefniadau i gefnogi gweithio mewn partneriaeth.

Mae byrddau partneriaeth rhanbarthol yn cael eu sefydlu ar lefel ardal bwrdd iechyd i lywio'r gwaith o integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cynllunio gwasanaethau integredig ac arloesol sy'n diwallu anghenion pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt yn y ffordd orau bosibl, a sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu. Byddant mewn sefyllfa ddelfrydol i sicrhau dulliau gweithredu darbodus mewn perthynas â gofal a chymorth.

Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod partneriaid yn cydweithio â'i gilydd er mwyn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ac yn gweithredu'r cynlluniau ardal ar y cyd a baratoir mewn ymateb i'r asesiad hwnnw. (Ymdrinnir â hyn yn fanylach ym mhennod 3). Mae hefyd yn ofynnol iddynt sicrhau bod digon o adnoddau ar gael a hyrwyddo cronfeydd cyfun lle y bo'n briodol. (Disgrifir cronfeydd cyfun ym mhennod 7).

Yn benodol, bydd angen iddynt flaenoriaethu'r broses o integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â'r canlynol:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- Pobl ag anableddau dysgu
- Gofalwyr
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

Bydd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar lefel ardal awdurdod lleol a byddant yn cynnwys ystod ehangach o bartneriaid er mwyn ystyried llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach yr ardal mewn modd strategol. Byddant yn nodi nifer fach o flaenoriaethau yn lleol ar gyfer gweithredu ar y cyd ledled yr ardal; a fydd efallai'n cynnwys materion yn ymwneud â gofal a chymorth, neu efallai na fyddant yn eu cynnwys.

Mae Deddf 2015 yn rhoi diben cyffredin i wasanaethau cyhoeddus a gweithio mewn partneriaeth yn seiliedig ar saith nod llesiant ac yn nodi sut y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio, a chydweithio, i wella llesiant Cymru.

I'r sector iechyd, mae Deddf 2015 yn gyfle pwysig i addasu'r ffocws ar iechyd a meithrin y ddealltwriaeth ei fod yn fwy na dim ond absenoldeb clefyd neu drin salwch. Mae ganddi'r potensial i symud y ffocws i benderfynyddion ehangach iechyd a herio partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i weld eu cyfraniad at atal iechyd gwael, gwella iechyd a diogelu iechyd.

Yn ogystal â'r ddyletswydd a roddir ar gyrff penodol (gan gynnwys byrddau iechyd) i weithio ar y cyd er mwyn gwella llesiant eu hardal, fel aelodau o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i **bob un** o'r 44 o gyrff a enwir yn Neddf 2015, gan gynnwys byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau penodedig, i gydweithio ag eraill er mwyn cyflawni eu hamcanion llesiant eu hunain.

Y materion allweddol y bydd angen i fyrddau ac ymddiriedolaethau eu rheoli ar y cyd â'u partneriaid yw:

- i ba raddau y mae trefniadau llywodraethu'r byrddau partneriaeth rhanbarthol a'r cydbwyllgorau yn gyson â byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth
- i ba raddau y mae'r asesiadau poblogaeth rhanbarthol sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2014 yn llywio'r asesiadau ehangach o lesiant lleol sy'n ofynnol ar gyfer pob ardal bwrdd gwasanaethau cyhoeddus
- i ba raddau y mae amcanion y bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn ategu amcanion llesiant ehangach y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ym mhob ardal
- i ba raddau y mae trefniadau cynllunio corfforaethol ac adroddiadau blynyddol byrddau ac ymddiriedolaethau yn adlewyrchu amcanion byrddau gwasanaethau cyhoeddus a byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Y materion allweddol i'w hystyried mewn perthynas â hyn yw sut i reoli'r cydberthnasau rhwng y ddwy lefel hyn o bartneriaeth (rhanbarthol a lleol) a sicrhau bod tystiolaeth, strategaeth a threfniadau llywodraethu yn gyson â'i gilydd. Bydd yn bwysig i bob ymddiriedolaeth a bwrdd sicrhau bod ganddynt bobl ar y lefel gywir ac sy'n meddu ar ddigon o brofiad i reoli'r anhawster hwn, a bod ganddynt gymorth gan unigolion sy'n gweithio ym maes strategaeth a chasglu tystiolaeth, ond bydd hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n rhyngwynebu â sawl bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

Ystyrir y materion hyn yn fanylach mewn penodau dilynol.

2. LLYWODRAETHU TREFNIADAU PARTNERIAETH YN EFFEITHIOL

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol bob amser yn hollbwysig i ategu gweithio mewn partneriaeth. Mae'r ddwy Ddeddf wedi pennu dwy set o drefniadau partneriaeth at ddau ddiben gwahanol ond rhyng-gysylltiedig.

Byrddau partneriaeth rhanbarthol

Er mai byrddau partneriaeth rhanbarthol yw'r seilwaith craidd ar gyfer integreiddio rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhy gyfarwyddol o ran ar ba ffurf y dylai'r trefniadau partneriaeth fod o dan Ddeddf 2014. Mae hyn er mwyn caniatáu i'r trefniadau hyn gael eu datblygu mewn modd cyd-gynhyrchiol, sy'n sicrhau ymrwymiad a pherchnogaeth gan bartneriaid. Yr her yw i awdurdodau lleol a byrddau iechyd fod yn arloesol a rhoi trefniadau effeithiol ar waith er mwyn gwella effaith gwasanaethau mewn ymateb i'w hasesiad poblogaeth.

Mae'r rheoliadau yn rhagnodi aelodaeth graidd ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys o leiaf un aelod a chynrychiolydd o'r bwrdd iechyd. Gellir cyfethol unrhyw unigolion eraill i fyrddau partneriaeth rhanbarthol fel y bo'n briodol. Gallai'r hyblygrwydd hwn helpu i sicrhau bod yr aelodau a benodir yn gallu cefnogi trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd.

Gall byrddau partneriaeth rhanbarthol hefyd sefydlu is-fyrddau er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda integreiddio mewn ardaloedd daearyddol neu feysydd gwasanaeth penodol. Er enghraifft, gallant sefydlu bwrdd i oruchwylio'r gwaith o integreiddio gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu neu fwrdd sy'n gyfrifol am ddatblygu ac integreiddio gwasanaethau gofal sy'n gydnaws â thechnoleg.

Byrddau gwasanaethau cyhoeddus

Enwir byrddau iechyd yn Neddf 2015 fel aelodau o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ac, fel y cyfryw, maent yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd gyfreithiol i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant drwy fynd ati ar y cyd i asesu cyflwr llesiant yr ardal; pennu amcanion lleol mewn cynllun llesiant lleol a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

Yr hyn a ddysgwyd o Raglen Mabwysiadwyr Cynnar CLILC oedd nad oedd trefniadau llywodraethu presennol partneriaethau yn ddigonol i adlewyrchu ehangder Deddf 2015 o ran mynd i'r afael â'r holl nodau llesiant a mabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Roedd nifer o'r awdurdodau a oedd ynghlwm wrth y gwaith hwn yn gweld Deddf 2015 fel cyfle i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r gwaith amlgenhedlaeth yn eu gweithgarwch ac 'atgyweirio' elfennau o'r hyn a welir ganddynt fel system gamweithredol o weithio mewn partneriaeth ar lefelau lleol a rhanbarthol. Roedd yr awdurdodau hyn o'r farn bod yr angen i ehangu'r gynrychiolaeth ar y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus i gynnwys mwy na'r aelodau craidd fel y nodir yn y Ddeddf yn allweddol. Teimlwyd bod rôl y sefydliadau 'eraill', boed yn gyrrff gwirfoddol, asiantaethau neu barciau cenedlaethol, yn hollbwysig er mwyn datblygu integreiddio, cyfranogiad, arloesedd a gwaith cynllunio cadarn mewn perthynas â llesiant.

Mae Deddf 2015 yn rhoi disgrisiwn i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus benderfynu pwy y maent yn dymuno iddynt gymryd rhan yn eu gwaith. Dylai byrddau iechyd, fel aelodau craidd o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, ystyried pwy arall y mae angen eu cynnwys a sut y dylid eu cynnwys (a ddylid gofyn iddynt gymryd rhan yn barhaus neu gymryd rhan ar adegau penodol neu mewn darnau penodol o waith).

Bydd dyletswydd ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, nid i gyfrannu at gyflawni nodau llesiant drwy asesu, cynllunio a chymryd camau rhesymol, ond i weithredu'n uno â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wnânt – ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Dangosodd y Rhaglen Mabwysiadwyr Cynnar mai prin yw'r dystiolaeth sydd gan lawer o awdurdodau lleol bod datblygu cynaliadwy'n cael ei ystyried yn gyson yn eu holl waith. Hefyd, cyfeiriodd y byrddau gwasanaethau lleol a oedd yn rhan o'r gwaith at ddatblygu cynaliadwy fel sgil gynnyrch 'tybiannol' o'u gwaith neu, mewn rhai achosion, roeddent yn cyfiawnhau datblygu cynaliadwy neu'n ei ychwanegu at y gweithgaredd dan sylw ar ôl dechrau ymgymryd ag ef. Yn aml, rhoddwyd enghreifftiau unigol o arfer cynaliadwy fel tystiolaeth o ddatblygu cynaliadwy fel egwyddor ganolog o'r gwaith trefnu, pan nad oedd hyn yn wir.

Yr her i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus o ran llywodraethu yw cymhwyso'r egwyddor ar *ddechrau* eu gwaith, wedyn nodi ac egluro sut maent yn ei chymhwyso gan wneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant. Bydd angen datblygu technegau sy'n helpu byrddau gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymlaen llaw ar lefel strategol er mwyn *ffurfio* (yn hytrach na chyfiawnhau) y dull gweithredu a ffefrir mewn perthynas â strategaeth, polisi, gweithrediadau neu wasanaethau³. Bydd hefyd angen casglu tystiolaeth er mwyn cyflwyno adroddiadau ar y mater hwn.

Fel aelodau craidd, bydd angen i fyrddau iechyd ystyried sut y gallant sicrhau bod trefniadau llywodraethu pob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau bod y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant ac yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn gyson at ei benderfyniadau a'i weithrediadau.

Gellid mynd i'r afael â hyn drwy wneud y canlynol:

- nodi diben a gweledigaeth ar gyfer pob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnwys llesiant hirdymor cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- ystyried beth y byddai mabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y ffordd greiddiol o weithio yn ei olygu'n ymarferol i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus
- adlewyrchu anghenion cenedlaethau'r dyfodol mewn gweithgarwch ymgysylltu ac adroddiadau
- gwneud cenedlaethau'r dyfodol, yr hirdymor a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhan amlwg o brosesau gwneud penderfyniadau a fframweithiau ariannol a risg.

Rhoddod y sylwadau a wnaed yng ngweithdai gwanwyn 2016 rywfaint o wybodaeth am y cyfleoedd am newid y mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn eu cynrychioli:

- dylai byrddau iechyd fabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau o ran byrddau gwasanaethau cyhoeddus
- mae Deddf 2015 yn gyfle i lywio'r agenda iechyd drwy weithgarwch a gwaith cynllunio sefydliadau eraill
- mae Deddf 2015 a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn gyfle i feithrin cydberthnasau â phartneriaid er mwyn gweithio ar atal
- mae gan Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd rôl bwysig a dylent fod yn rhan o'r newidiadau sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2015
- y cyfle i ddefnyddio strwythurau newydd ar gyfer Deddf 2015 er mwyn cysoni gwaith cynllunio a datblygu mewn ardaloedd
- yr angen i 'gyfuno' gwaith byrddau partneriaeth eraill â'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus
- adeiladu ar y cydberthnasau sydd eisoes yn bodoli â byrddau gwasanaethau cyhoeddus a'u haddasu, gan gydnabod cwmpas diwygiedig byrddau gwasanaethau cyhoeddus
- yr angen i'r gymuned gael ei chynrychioli ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Sut mae'r ddwy ddeddf yn gyson â'i gilydd?

Mae'r ddwy Ddeddf yn nodi disgwyliadau/gofynion i gyrrff cyhoeddus gydweithio â'i gilydd i wella canlyniadau; gan gydnabod bod anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau'n cael eu diwallu gan nifer o sefydliadau.

Mae gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus ddibenion gwahanol. Mae gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol rôl benodol i lywio'r gwaith o integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cynllunio a sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth integredig ac arloesol yn cael eu darparu. Bydd byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn edrych yn fwy cyffredinol ar wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach yr ardal.

Fodd bynnag, bydd angen i fyrddau iechyd gydweithio'n agos â phartneriaid awdurdod lleol yn enwedig er mwyn sicrhau bod eu cydberthynas yn ategu ei gilydd lle y ceir tir cyffredin – er enghraifft lle y nodir integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol/materion yn ymwneud â gofal a chymorth fel blaenoriaeth allweddol i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus; neu lle y mae gan weithgareddau bwrdd gwasanaethau cyhoeddus oblygiadau i wasanaethau gofal a chymorth.

3. ASESU A CHYNLLUNIO AR Y CYD ER MWYN GWELLA LLESIANT LLEOL

Mae'r ddwy Ddeddf yn cynnwys gofyniad allweddol i aelodau o'r byrddau gynnal asesiad er mwyn llywio gweithio mewn partneriaeth a pharatoi cynllun yn nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud mewn ymateb.

Mae Deddf 2014 yn canolbwyntio ar anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Mae llesiant yr unigolyn yn rhan allweddol o'r cysyniad 'seiliedig ar le' ehangach o lesiant a ddefnyddir yn Neddf 2015, sy'n cwmpasu llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Asesiadau poblogaeth

Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynnal asesiad ar y cyd o anghenion o ran gofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalwyr. Rhaid i'r asesiad hefyd nodi'r ystod a'r lefel o wasanaethau ataliol sydd eu hangen i ddiwallu'r angen hwnnw. Mae'r rheoliadau yn caniatáu llunio adroddiad cyfunol ar yr asesiad poblogaeth ar ôl-troed y bwrdd iechyd.

Cafodd yr adroddiadau asesiad poblogaeth cyntaf eu cyhoeddi ym mis Mai 2017. Mae'r cod ymarfer ategol yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r asesiadau hyn gynnwys cyfuniad o wybodaeth feintiol ac ansoddol sy'n nodi'r anghenion gofal a chymorth yn glir mewn perthynas â themâu craidd allweddol. Wrth gynnal yr asesiad hwn, mae hefyd yn ofynnol i bartneriaid ymgysylltu â dinasyddion, yn ogystal â'r trydydd sector a'r sector preifat.

Bydd yr asesiad poblogaeth hwn yn sail i'r gwaith o integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol drwy ffurfio sail dystiolaeth glir a phenodol y bydd yn rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ymateb iddi. Bydd hefyd yn llywio ystod o benderfyniadau gweithrediadol a phenderfyniadau cynllunio eraill mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth. Er enghraifft, bydd yn llywio Cynlluniau Tymor Canol Integredig, ac yn cael ei lywio ganddynt hwythau.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi llunio pecyn cymorth er mwyn helpu partneriaid i gynnal yr asesiad hwn, gan gynnwys catalog data ystadegol.

Rhaid ystyried asesiadau poblogaeth a gynhaliwyd o dan Ddeddf 2014 wrth gynnal yr Asesiad o Lesiant Lleol sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2015. Fodd bynnag, nid yw'r lefel lawn o fanylder mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth sy'n ofynnol mewn adroddiad asesiad poblogaeth yn debygol o fod yn ofynnol mewn Asesiad ehangach o Lesiant Lleol.

Asesiadau o lesiant lleol

Dylai asesiad y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus o lesiant lleol fod yn asesiad o 'gyflwr lle'. Dim ond rhan o'r 'darlun' y mae angen ei lunio o lesiant ym mhob ardal yw'r asesiadau poblogaeth sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2014. Mae gwaith yn mynd rhagddo yng Nghymru i ddatblygu dull gweithredu cydgysylltiedig ar draws rhanbarthau mewn perthynas ag asesiadau o lesiant lleol, er enghraifft yn hen ardal Gwent, lle mae pum awdurdod yn ystyried y sail dystiolaeth ar gyfer yr asesiad o lesiant lleol ar y cyd.

Y ddwy dasg y mae byrddau iechyd yn eu hwynebu ochr yn ochr â'u partneriaid ar y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yw dadansoddi'r sefyllfa (yr hyn a wyddom am ardal) a

dadansoddi'r ymateb (sut i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodir). Ceir canllawiau anstatudol defnyddiol ar y mater hwn⁴.

Mae Uned Ddata Cymru wedi llunio set ddata graidd i'w defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus er mwyn dechrau asesu llesiant yn yr ardal a chynorthwyo'r gwaith o gynnal yr asesiad. Dim ond rhan o'r sail dystiolaeth y bydd byrddau gwasanaethau cyhoeddus am ei defnyddio i ategu eu hasesiadau yw'r data hyn, ac mae'n debygol y byddant hefyd am ddefnyddio dystiolaeth a gwybodaeth leol gan gynnwys barn dinasyddion. Ei nod yw sicrhau mwy o gysondeb a llai o ddyblygu wrth ddatblygu'r asesiadau ledled Cymru. Bwriedir iddi ganiatáu mwy o ffocws ac adnoddau ar gyfer dadansoddi'r data a chysondeb rhwng partneriaid sy'n cefnogi mwy nag un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus⁵.

Cafodd y materion hyn sy'n ymwneud ag asesu llesiant ardal eu cydnabod gan gyfranogwyr yng ngweithdy gwanwyn 2016:

- rhoi llawer mwy o ystyriaeth i wybodaeth ansoddol. Nid dim ond rhifau/data sy'n bwysig
- cymryd cam yn ôl a deall yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym
- gwneud ein dystiolaeth a'n polisi yn fwy trwyadl er mwyn deall ymyriadau effeithiol
- gofyn y cwestiynau ehangach ar gyfer ardal. Edrych ar yr achosion a mynd i'r afael â'r problemau wrth y ffynhonnell
- gwella cydweithio ar ddull gweithredu cydgysylltiedig mewn perthynas â dadansoddi data ar gyfer asesiadau
- nodi'r naratif, astudiaethau achos a hanesion a defnyddio dangosyddion procsi
- peidio â gadael i ddangosyddion perfformiad allweddol ddisodli pethau da eraill
- a oes arbenigedd ar waith er mwyn asesu effaith a llwyddiant gwaith ar gyfer y boblogaeth leol?

Cynllunio mewn ymateb i'r asesiadau

Cynlluniau ardal

Mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth, rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lunio cynlluniau ardal. Diben y cynlluniau hyn yw rhoi disgrifiad o ystod a lefel y gwasanaethau i'w darparu neu eu trefnu er mwyn ymateb i'r angen o ran gofal a chymorth a nodwyd yn yr adroddiad cyfunol ar yr asesiad poblogaeth.

Yn unol â'r asesiad poblogaeth, y dylai cynlluniau ardal gael eu paratoi ar y cyd o fewn bwrdd partneriaeth rhanbarthol gan y bwrdd iechyd a'r awdurdodau lleol o fewn ardal y bwrdd iechyd hwnnw.

Dylai cynlluniau ardal ar y cyd ganolbwyntio ar sut y byd y partneriaid yn darparu gwasanaethau integredig mewn perthynas â'r themâu craidd sydd wedi'u pennu yn yr asesiadau poblogaeth. Y themâu yw:

- Plant a phobl ifanc;
- Pobl hŷn;

⁴ <http://gov.wales/topics/improvingservices/public-services-boards/?skip=1&lang=cy>

⁵ <http://www.unedddatacymru.gov.uk/local-assessment-of-well-being-common-data-set-published>

- Anableddau iechyd/corfforol;
- Anawsterau dysgu/awtistiaeth;
- Iechyd meddwl;
- Nam ar y synhwyrâu;
- Gofalwyr sydd angen cymorth.

Rhaid i'r cynlluniau ardal cyntaf gael eu cyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2018.

Mae'n ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol roi'r cynlluniau hyn ar waith. Tra bydd y cynlluniau hyn yn ymdrin yn benodol â gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl, ac anghenion cymorth gofalwyr, dylent lywio'r cynlluniau llesiant lleol ehangach y mae Deddf 2015 yn darparu ar eu cyfer, a chael eu llywio ganddynt hwythau. Yn yr un modd, dylai'r ddau gynllun lywio'r Cynlluniau Tymor Canol Integredig a chael eu llywio ganddynt hwythau.

Cynlluniau Llesiant Lleol

Bydd pob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn paratoi cynllun llesiant lleol sy'n nodi ei amcanion a rennir ar gyfer gwella llesiant yr ardal a'r camau a gymerir i gyflawni'r amcanion hyn. Wrth ddewis yr amcanion hyn, bydd y byrddau'n ystyried unrhyw faterion y soniwyd amdanynt yn yr asesiad o lesiant lleol, a fydd yn ffurfio'r sail dystiolaeth gadarn i fwrdd bennu (a chyfiawnhau) amcanion.

Rhaid i'r amcanion gydsynio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cyflawni ar gyfer y byrdymor a gwneud hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau ar gyfer yr hirdymor.

Rhoddodd Rhaglen Mabwysiadwyr Cynnar CLILC sylw i'r cwestiynau ynghylch strategaeth hirdymor yng nghyhoeddiad PricewaterhouseCoopers/NSF, Cenhedlaeth 2050: Gwell Penderfyniadau Hirdymor. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ymarferion ac astudiaethau achos i uwch wneuthurwyr penderfyniadau eu defnyddio er mwyn canolbwyntio ar strategaeth hirdymor.

Mae dau adnodd diagnostig ar gael hefyd, sef adnodd dadansoddi traws-sefydliadol manwl ac adnodd diagnostig llai manwl, sydd ill dau yn cynnwys adrannau ar strategaeth a nodweddion allweddol strategaeth sy'n ymateb i Ddeddf 2015. Gall y rhain fod yn ddefnyddiol ar lefel bwrdd gwasanaethau cyhoeddus er mwyn llywio'r broses Cynllun Llesiant Lleol. Ceir hefyd daflen briffio swyddogion ar Strategaeth o Raglen Mabwysiadwyr Cynnar CLILC a all fod yn ddefnyddiol wrth ystyried y mater hwn.

Bydd angen i fyrddau iechyd reoli'r materion canlynol:

- mabwysiadu gorwel cynllunio tymor hwy gan feithrin diwylliant hirdymor o fewn y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus (10-20-30 mlynedd)
- rheoli mewnbwn eang ar lefel leol, gan ymgysylltu'n effeithiol â nifer o brosesau cynllunio llesiant, gan gynnwys y ddwy broses asesu ar gyfer 'olion traed' byrddau ac ymddiriedolaethau
- newid y pwyslais i lesiant seiliedig ar le yn ogystal â llesiant seiliedig ar anghenion.

Mae'r hyn a ddysgwyd o Raglen Mabwysiadwyr Cynnar CLILC yn awgrymu bod rhai elfennau o waith asesu a chynllunio y mae angen eu rheoli yn y byrddau gwasanaethau cyhoeddus, gan yr **holl** aelodau craidd, gan gynnwys byrddau iechyd.

- datblygu a chyfleu'r cynllun llesiant lleol a'r asesiad
- yr angen am newid sylfaenol tuag at orwelion amser tymor hwy, yn enwedig o ran yr asesiad o lesiant lleol er mwyn ystyried tueddiadau, risgiau a data hirdymor ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol
- yr angen i ddatblygu naratifau polisi hirdymor ar gyfer ardal er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer camau ataliol.

Nododd cyfranogwyr yng ngweithdy gwanwyn 2016 faterion penodol i'w rheoli drwy ymgysylltu â strategaeth byrddau gwasanaethau cyhoeddus:

- asesu effaith ein sefydliadau ein hunain ar lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol
- cysoni blaenoriaethau lle y bo modd, ond rhoi systemau ar waith ar gyfer rheoli gwahaniaeth lle y bo angen, e.e. y gwahaniaeth rhwng agenda byrddau gwasanaethau cyhoeddus a threfniadau rheoli perfformiad y GIG
- meithrin dealltwriaeth gyffredin a llunio diffiniadau cyffredin o lywodraethu, llesiant, atal, asedau a risgiau
- datrys materion sy'n gysylltiedig â gwaith byrdymor i fonitro partneriaid y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ei hun o gymharu â gweithgarwch sy'n ymateb i ganlyniadau hirdymor strategaeth
- nid yw "iechyd" a "llesiant" yn dermau cyfnewidiadwy. Ar lefel bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, mae edrych yn ehangach er mwyn ystyried cylchoedd gwaith sefydliadol eraill.

Cysylltu gweithio mewn partneriaeth a chynllunio corfforaethol

Mae pob un o aelodau byrddau gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant sydd ar gyff cyhoeddus ac, fel y cyfryw, mae'n ofynnol iddynt bennu eu hamcanion llesiant eu hunain a'u hadlewyrchu yn eu cynlluniau corfforaethol. Mae'r dyletswyddau hyn yn wahanol i'w gilydd ond yn ategu ei gilydd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyff cyhoeddus ystyried beth yw eu hamcanion eu hunain fel sefydliadau a beth yw'r amcanion a rennir ar gyfer yr ardaloedd y maent yn gweithio ynddynt.

Nid oes angen i'r amcanion hyn, na'r camau a gynigir i'w cyflawni, fod yn wahanol. Mae'n bosibl y bydd achosion lle y bydd amcanion llesiant a bennir gan fwrdd iechyd hefyd yn flaenoriaethau a rennir ar gyfer yr ardal ac wedi'u cynnwys mewn cynllun llesiant lleol.

Golyga hyn y bydd angen i gynlluniau corfforaethol byrddau iechyd gael eu llywio gan gynlluniau llesiant lleol byrddau gwasanaethau cyhoeddus dros amser, a bod yn gyson â hwy lle y bo'n briodol. Mae hyn yn gosod her i fyrddau iechyd gysoni eu hamcanion corfforaethol â nifer o gynlluniau llesiant lleol. Ni chaiff y cynlluniau llesiant lleol cyntaf eu cyhoeddi tan ganol 2018.

Bydd yr asesiad poblogaeth a'r cynlluniau a gaiff eu paratoi mewn ymateb iddo hefyd yn llywio ystod o benderfyniadau gweithrediadol a phenderfyniadau cynllunio eraill mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys llywio Cynlluniau Tymor Canol Integredig a chael eu llywio ganddynt hwythau.

4. YMGYSYLLTU Â DINASYDDION AC YN EHANGACH

Yn gysylltiedig â'r gofyniad i bartneriaid gydweithio â'i gilydd, mae'r ddwy Ddeddf hefyd yn galluogi partneriaid i gynnwys unigolion a chymunedau yn eu gwaith. Wrth weithio mewn

partneriaeth, bydd angen i'r GIG yng Nghymru bob amser roi hyn yng nghyd-destun ymgysylltu â phobl ar yr un pryd.

Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol meithrin diwylliant lle y ceir cydberthynas gyfartal rhwng ymarferwyr a phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gan gynnwys gofaluwr y mae angen cymorth arnynt. Bydd hyn yn arwain at ffocws ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau ac allbynnau, a hynny ar lefel yr unigolyn ac ar lefel strategol.

Rhaid cynnwys pobl ag anghenion gofal a chymorth, yn ogystal â gofaluwr, yn y broses o gynnal yr asesiad poblogaeth sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2014. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl fynegi beth yw'r anghenion yn yr ardal yn ei barn hwy a pha wasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny, gan gynnwys o ran gwasanaethau ataliol.

Bydd sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat, megis darparwyr cartrefi gofal, hefyd yn meddu ar wybodaeth ac arbenigedd a fydd yn llywio asesiad poblogaeth. Rhaid i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol hefyd ymgysylltu â'r grwpiau hyn wrth gynnal asesiad poblogaeth.

Gan barhau â'r egwyddor hon, rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol hefyd gynnwys, fel aelodau, un person i gynrychioli anghenion pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt ac un person i gynrychioli anghenion gofaluwr. Bydd angen dau aelod arall i gynrychioli'r trydydd sector. Bydd yr aelodau hyn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau integredig a ddarperir gan y bwrdd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth yn cael eu llunio ar y cyd.

Ceir pwyslais yr un mor gryf ar gynnwys yn Neddf 2015. Mae'n ofynnol i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus ymgynghori'n eang wrth baratoi ei asesiad o lesiant lleol a'i gynllun llesiant lleol. Mae hefyd yn ofynnol iddo nodi yn ei gylch gorchwyl gynigion ar gyfer cynnwys pobl y mae'r bwrdd o'r farn bod ganddynt ddi-ddordeb yn llesiant yr ardal y tu hwnt i ymgynghori'n ffurfiol ar yr asesiad a'r cynllun.

Un o'r ffactorau allweddol eraill a nodwyd yng ngweithdai gwanwyn 2016 oedd yr angen i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yng ngweithgarwch byrddau gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau newid sylweddol o ran ymgysylltu â dinasyddion:

- sut y gallwn ddefnyddio llais y bobl er mwyn sicrhau bod newid yn digwydd? Mae angen iddynt gael eu clywed gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus
- dylai fod ffocws gwirioneddol ar sicrhau bod y gymuned yn rhan o'r broses a bod ganddi lais
- newid pwy sy'n bresennol mewn cyfarfodydd, y dull o'u cynnal a'u strwythurau/lleoliadau – gwneud cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd
- sut mae'r cyhoedd yn gwybod pa benderfyniad sy'n cael eu gwneud a ble?
- gwneud mwy o ddefnydd o straeon dinasyddion/y cyhoedd
- cyfathrebu'n glir ac yn gyson â chymunedau
- sicrhau bod dinasyddion yn cael eu cynnwys (nid y Bwrdd Gweithredol yn unig).

5. CAPASITI PARTNERIAETHAU A RHANNU ADNODDAU ARIANNOL

Capasiti Partneriaethau

Mae'n debygol iawn y bydd byrddau cyhoeddus ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn sefyllfaoedd gwahanol iawn o ran sut maent yn gweld Deddf 2015 mewn perthynas â'u hagendâu presennol a'u gallu i ddeall ei goblygiadau. I rai, mae'n debygol o fod yn achos o

'fusnes fel arfer' ac i eraill gall y Ddeddf fod yn gyfle i roi fframwaith i newidiadau sydd eisoes wedi'u cynllunio. Gallai'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ddefnyddio rhai o'r adnoddau a ddatblygwyd drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ganfod, fel partneriaeth, beth yw sefyllfa'r amrywiol bartneriaid mewn perthynas â'r Ddeddf. Datblygodd y rhaglen adnodd llai manwl a 'sbectwm ymateb' er mwyn helpu awdurdodau i ystyried y mater hwn. Gellid defnyddio'r rhain ar lefel bwrdd gwasanaethau cyhoeddus i ystyried busnes craidd gwahanol sefydliadau a gofyniad ehangach Deddf 2015 i feddwl a gweithredu'n ehangach er mwyn cyfrannu at y nodau llesiant.

Gall adnoddau eraill a luniwyd drwy'r rhaglen helpu i ddatblygu capasiti byrddau o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac addasu systemau a phrosesau ym mhob rhan o'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys Rhaglen Arwain, Modiwlau Hyfforddi Aelodau; Sesiynau Briffio Swyddogion; Gwaith Dadansoddi Systemau a Phrosesau; a Senarios 2050 **Error! Bookmark not defined.** Mae gan rai o'r rhain ffocws penodol ar ddinasyddion, gan ganolbwyntio ar effeithiau ar ddinasyddion a chartrefi.

Rhannu Adnoddau Ariannol

Mae'n ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ystyried yr angen i sefydlu cronfeydd cyfun pryd bynnag y maent yn gwneud rhywbeth ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth o anghenion gofal a chymorth sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2014. Ceir rhywfaint o hyblygrwydd o ran yr agwedd hon ar y cronfeydd cyfun. Er enghraifft, gellid sefydlu cronfa gyfun rhwng yr holl bartneriaid neu, fel arall, gallai fod cytundebau unigol rhwng dau neu fwy o bartneriaid o fewn rhanbarth. Unwaith eto, dylai'r hyn a bennir yn lleol arwain at y trefniant mwyaf priodol mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2014.

Bydd cronfeydd cyfun hefyd yn ofynnol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd ac, o fis Ebrill 2018 ymlaen, arfer swyddogaethau yn ymwneud â darparu llety cartrefi gofal i oedolion. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gronfeydd cyfun ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal gael eu sefydlu ar y cyd ar lefel ranbarthol rhwng y bwrdd iechyd a phob un o'r awdurdodau lleol o fewn yr ardal bartneriaeth. Mae hynny oherwydd bod darparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n gwella canlyniadau llesiant yn golygu cydweithio yn ogystal ag integreiddio.

Mae cronfeydd cyfun yn ddull allweddol i gefnogi'r gwaith o integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a byddant yn helpu i ddyrannu adnoddau yn fwy effeithiol. Yn amlwg, nid ydynt yn ddatrysiad ynddynt eu hunain. Rhaid i'r dull gweithredu hwn fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth wirioneddol o anghenion y boblogaeth ac ymrwymiad llwyr i ddarparu gwasanaethau drwy ddulliau integredig.

Mae byrddau partneriaeth rhanbarthol hefyd yn goruchwylio'r Gronfa Gofal Canolraddol ac yn sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio a'i chyflawni'n effeithiol, gan reoli'r cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru fel pe bai'n gronfa gyfun. Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi cael ei defnyddio i lywio gweithio mewn partneriaeth a chydweithio er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o gymorth ac annibyniaeth i bobl fregus ac oedrannus y mae angen gofal a chymorth canolraddol arnynt. Ymhlith y modelau gofal a chymorth a ddatblygwyd drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol mae datrysiadau ataliol ac ailalluogi, pwyntiau cyswllt unigol, gwelliannau tai a theleofal, timau ymateb cyflym, gofal dementia a chymorth gwaith cymdeithasol saith diwrnod. Mae'r mentrau hyn wedi creu mwy o gapasiti yn y system gofal a mwy o gysondeb o ran darparu gwasanaethau o fewn rhanbarthau. Dim ond drwy ddiwylliant o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth y gellid bod wedi cyflawni hyn.

Mae rheoli adnoddau ariannol hefyd yn fater allweddol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wrth iddynt ymateb i Ddeddf 2015. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r ffordd y caiff y bwrdd ei 'wasanaethu' yn weinyddol. Un ffactor a fydd yn allweddol i fyrddau gwasanaethau

cyhoeddus allu cyflawni eu hamcanion a'u nodau a rennir yw i ba raddau y gallant bennu fframwaith clir ac atebol ar gyfer gwaith cydweithredol hirdymor o ran cynllunio ariannol a dyrannu adnoddau mewn perthynas â'r blaenoriaethau a nodir ganddynt. Cafwyd llawer o enghreifftiau o brosiectau/rhaglenni/gweithgareddau unigol/penodol ar draws byrddau gwasanaethau lleol a oedd yn dangos adnoddau'n cael eu rhannu'n effeithiol rhwng rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae'n bwysig sylweddoli pa mor sylweddol yw'r newid sydd ei angen er mwyn bod mewn sefyllfa lle mae gan aelodau byrddau gwasanaethau cyhoeddus ddull gweithredu cwbl integredig o gysoni adnoddau i gyflawni amcanion a rennir. Yn enwedig, mae angen ystyried p'un a yw'r fframweithiau, amserlenni a safonau presennol yn llesteirio ynteu'n cefnogi cydweithio ariannol a ph'un a oes digon o alluogrwydd i lunio cynlluniau ariannol cydweithredol sy'n adlewyrchu gorwelion amser hirdymor. Os na eir i'r afael â'r agwedd allweddol hon, bydd cyflawni dyheadau'r nodau llesiant yn heriol.

Dylai cylchoedd gorchwyl byrddau gwasanaethau cyhoeddus geisio nodi ymrwymiad clir i reoli adnoddau ym mhob rhan o'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mae bwrdd gwasanaethau cyhoeddus Bro Morgannwg wedi mabwysiadu dull gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â'r mater hwn, gan gynnwys cymalau ar y canlynol:

- enwebu unigolion o briod sefydliadau er mwyn arwain meysydd gwaith
- cyfleu pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, gan bwysleisio ei fod yn rhan arferol o'r gwaith
- adlewyrchu blaenoriaethau'r bwrdd o fewn strategaethau a chynlluniau sefydliadol
- mynd i'r afael â heriau o ran adnoddau sy'n rhwystro cynnydd partneriaid mewn meysydd blaenoriaeth.

Mae cylch gorchwyl bwrdd gwasanaethau cyhoeddus Cwm Taf yn cynnwys cymalau ar rannu arbenigedd, defnyddio asedau a rennir a chyllidebau cyfun.

Dylai byrddau iechyd (ac ymddiriedolaethau fel partneriaid byrddau gwasanaethau cyhoeddus) fabwysiadu ymrwymiad cyffredinol i ystyried ffyrdd o rannu adnoddau er mwyn galluogi'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus i weithredu a dangos sut mae cyllid yn cael ei ddefnyddio i wneud cynnydd ar y nodau llesiant. Dylent sicrhau bod cylchoedd gorchwyl yn cynnwys geiriad sy'n ymrwymo i hyn.

Tynnwyd sylw at y materion hyn yn y ddau weithdy, lle nododd cyfranogwyr y materion allweddol canlynol:

- gallai trefniadau ariannol barhau i fod yn rhwystr sylweddol rhag sicrhau llesiant hirdymor y boblogaeth
- mae angen cyllid amflwyddyn
- cynyddu'r capasiti er mwyn nodi buddiannau i'r system gyfan a chyflwyno adroddiadau arnynt
- yr angen i ddenu cyllid cyfalaf er mwyn ein helpu i gyflawni'r nodau llesiant
- mae angen newid y drafodaeth ynghylch cyllid o "Beth yw cost fy nghyllideb?" i "Beth yw'r gost i'n cymuned?"
- mwy o bartneriaid = mwy o adnoddau, a ddylai olygu bod pawb ar eu hennill
- sut y gallwn ddyrannu adnoddau a gwneud penderfyniadau buddsoddi mewn modd sy'n fwy cyson â'r nodau llesiant?

Roedd eraill yn pryderu am yr agweddau ymarferol ar rannu adnoddau:

- sefydlu swyddi cyfunol

- pennu targed ariannol yn seiliedig ar ganran o'r gwariant ar atal
- rhannu swyddogaethau cefn swyddfa/cymorth. Byddai hyn yn gwneud partneriaethau, er enghraifft y bartneriaeth rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol, yn haws pe baem yn rhannu adran gyllid.

Mae rhagor o wybodaeth am effaith Deddf 2015 ar Reoli Ariannol ar gael ar ffurf Taflen Briffio Swyddogion ar wefan CLILC.

6. DATBLYGU SYSTEMAU, DIWYLLIANT AC ARWEINYDDIAETH

Un broblem fawr i fyrddau ac ymddiriedolaethau yw i ba raddau y bydd diwylliant systemig, sefydliadol ac arweinyddiaeth yn llesteirio neu'n hwyluso nodau'r ddwy Ddeddf. Yng ngweithdy gwanwyn 2016 cafwyd neges gryf bod angen i ddiwylliant sefydliadau a phartneriaethau newid yn sylfaenol, gan gynnwys ar lefel bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a bwrdd partneriaeth rhanbarthol, a bod angen i gyrrff ddod ynghyd mewn ffordd wahanol i'r hyn a oedd yn digwydd yn flaenorol.

Tybir bod y ffordd y mae arweinwyr yn ymgysylltu â'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn allweddol, gyda llawer o bobl yn awgrymu bod angen gwella dealltwriaeth uwch arweinwyr a phartneriaid o'r newid sydd ei angen. I fyrddau ac ymddiriedolaethau, teimlid bod angen arweinyddiaeth gan fyrddau gweithredol a rheolwyr, gyda rôl allweddol i ddylanwadu ar natur y gwaith a'i oruchwylio'n strategol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i'r cyrff iechyd hynny sy'n gweithio mewn mwy nag un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Dylai fod gan y person a ddynodir i fod ar y bwrdd awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran y bwrdd iechyd.

Cafwyd rhai awgrymiadau penodol yn y gweithdai ynglŷn â rhinweddau neu ymyriadau gan arweinwyr a fyddai'n hybu newid yn ffocws gwaith bwrdd gyda byrddau gwasanaethau cyhoeddus: "rhoi caniatâd"; canolbwyntio ar dystiolaeth; risgiau a reolir yn dda; cyfle i arbrofi; ffocws ar 20-25 mlynedd; ymgysylltu â thalent sy'n tarfu ar erail; cynnwys sgiliau a phobl newydd mewn trafodaethau am Ddeddf 2015 a gwaith byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ogystal â'r adnodd diagnostig ar gyfer Deddf 2015 y soniwyd amdano eisoes, ceir tri adnodd a allai fod yn ddefnyddiol i fyrddau ac ymddiriedolaethau er mwyn helpu i feithrin diwylliant o arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol sy'n gysylltiedig â'r Ddeddfau, yn enwedig mewn perthynas â gwaith gyda byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Y cyntaf yw cyhoeddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol

Cymru/PricewaterhouseCoopers/NSF, *Cenhedlaeth 2050: Gwell Penderfyniadau*

Hirdymor **Error! Bookmark not defined.** Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ymarferion ac astudiaethau achos i uwch wneuthurwyr penderfyniadau eu defnyddio er mwyn canolbwyntio ar ganlyniadau amlgenhedlaeth hirdymor sy'n *seiliedig ar le*.

Yr ail yw Rhaglen Arweinyddiaeth Datblygu Cynaliadwy benodol a luniwyd gan PricewaterhouseCoopers fel rhan o waith CLILC sy'n cynnwys sesiynau hyfforddi, dysgu gweithredol ac adnoddau hyfforddi, ynghyd â llawlyfr i'r hyfforddwr, er mwyn meithrin sgiliau arwain yn y maes hwn.

Y trydydd yw Rhaglen Arweinyddiaeth a deunyddiau dysgu Academi Wales⁶, sy'n cael eu seilio fwyfwy ar Ddeddf 2015 drwy werthoedd, egwyddorion gweithio ac ymddygiadau

⁶ <http://www.academiwales.org.uk/uploads/attachments/DZNL75p5H.pdf>

cyffredin sy'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r nodau llesiant. Mae cyrsiau, adnoddau dysgu a chyhoeddiadau ar gael.

Roedd llawer o'r sylwadau a wnaed yn y gweithdai yn ymwneud â'r newidiadau sydd eu hangen o ran y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cydweithio yn sgil Deddf 2015:

- mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried ei rôl o ran galluogi byrddau ac ymddiriedolaethau i ymateb i'r ddeddfwriaeth
- bydd yn rhaid cael gwared ar rwystrau rhag rhannu gwybodaeth. Rhaid rhannu data ac asedau yn agored
- mae angen bod yn benodol ynglŷn â'r hyn nad yw'n gweithio a derbyn y bydd sefydliadau yn herio ei gilydd ynghylch hyn
- rhoi rheolaeth a phŵer i sefydliadau eraill - gollwng gafael - aelodau etholedig penodol ar gylchoedd etholiadol byrdymor
- recriwtio pobl arloesol sy'n herio'r drefn arferol (rhaid gwerthfawrogi hyn!) secondiadau/cyfnewid staff.
- ymgysylltu â'n gilydd a gwrando
- symleiddio'r broses o bontio rhwng gwasanaethau cyhoeddus – mae symud o un sefydliad i'r llall yn gymhleth ar hyn o bryd.
- mae angen i'n hiaith (geirfa) gyffredin gynnwys Deddf 2015.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda byrddau ac ymddiriedolaethau ieuchyd ar yr elfennau hynny o gymorth a fyddai'n elwa ar gydgyssylltu cenedlaethol.

Dyletswydd gyffredinol Comisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Cymru yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn enwedig er mwyn annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor yr hyn a wnânt. Gall y Comisiynydd roi cyngor neu gymorth i gorff cyhoeddus mewn perthynas â hyn.